OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 No. 725

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020

## RHAN 4

### Ymgynnull gyda phobl eraill

**Cyfyngiadau ar gynulliadau**

**14.**—(1) Ni chaiff unrhyw berson, heb esgus rhesymol—

(a) ymgynnull yn yr awyr agored gydag unrhyw berson arall oni bai am—

(i) aelodau o'i aelwyd neu aelodau o ddim mwy nag un aelwyd arall,

(ii) gofalwr iddo, neu

(iii) person y mae'n darparu gofal iddo;

(b) ymgynnull mewn mangre o dan do gydag unrhyw berson arall oni bai am—

(i) aelodau o'i aelwyd,

(ii) gofalwr iddo, neu

(iii) person y mae'n darparu gofal iddo.

(2) Mae esgus rhesymol yn cynnwys yr angen i wneud y canlynol—

(a) cael cynhorthwy meddygol, gan gynnwys cael gafael ar unrhyw un neu ragor o'r gwasanaethau y cyfeirir atynt ym mharagraff 10 o Atodlen 4 neu gael gafael ar wasanaethau milfeddygol;

(b) darparu neu gael gofal neu gynhorthwy, gan gynnwys gofal personol perthnasol o fewn ystyr "relevant personal care" ym mharagraff 7(3B) o Atodlen 4 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(**1**), pan fo'r person sy'n cael y gofal yn berson hyglwyf;

(c) darparu neu gael cynhorthwy brys;

(d) rhoi gwaed;

(e) gweithio neu ddarparu gwasanaethau gwirfoddol neu elusennol;

(f) pan fo'r person yn athletwr elît, hyfforddi neu gystadlu;

(g) mynd i weinyddiad priodas neu ffurfiad partneriaeth sifil—

(i) fel parti i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil,

(ii) os caiff ei wahodd i fynychu, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r briodas neu'r bartneriaeth sifil;

(h) mynd i angladd—

(i) fel person sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd,

(**1**) 2006 p. 47. Mewnosodwyd paragraff 7(3B) gan adran 66(2) o Ddeddf Diogelu Rhyddidau 2012 (p. 9).

(ii) os caiff ei wahodd gan berson sy'n gyfrifol am drefnu'r angladd, neu

(iii) fel gofalwr person sy'n mynd i'r angladd;

(i) bodloni rhwymedigaeth gyfreithiol, gan gynnwys mynd i'r llys neu fodloni amodau mechnïaeth, neu gymryd rhan mewn achos cyfreithiol;

(j) cael gafael ar wasanaethau cyhoeddus hanfodol neu gael y gwasanaethau hynny, gan gynnwys —

(i) gofal plant neu wasanaethau addysgol;

(ii) gwasanaethau cymdeithasol;

(iii) gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau;

(iv) gwasanaethau a ddarperir i ddioddefwyr (megis dioddefwyr trosedd neu drais domestig);

(k) mewn perthynas â phlant nad ydynt yn byw yn yr un aelwyd â'u rhieni, neu un o'u rhieni, parhau â threfniadau presennol ar gyfer gweld rhieni a phlant, a chyswllt rhyngddynt, ac at ddibenion y paragraff hwn, mae "rhiant" yn cynnwys person nad yw'n rhiant i'r plentyn, ond sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn neu sydd â gofal drosto;

(l) symud cartref;

(m) paratoi eiddo preswyl i bersonau symud i mewn;

(n) ymgymryd â'r gweithgareddau a ganlyn mewn cysylltiad â phrynu, gwerthu, gosod neu rentu eiddo preswyl nad yw wedi ei feddiannu—

(i) ymweld ag asiantau eiddo neu asiantau gosod eiddo, swyddfeydd gwerthiant datblygwyr neu gartrefi arddangos;

(ii) gweld eiddo o'r fath;

(o) osgoi anaf neu salwch neu ddianc rhag risg o niwed.

(3) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i unrhyw berson sy'n ddigartref.

(4) At ddibenion paragraff (2)(n), nid yw eiddo wedi ei feddiannu os nad yw unrhyw berson yn meddiannu'r eiddo fel preswylfa.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 14 mewn grym ar 13.7.2020, gweler **rhl. 1(4)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 13/07/2020. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) 2020. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.